Post Brenhinol

Royal Mail®

Mae'r Post Brenhinol, y Groesffurf a'r lliw coch yn nodau masnachu cofrestredig i Grŵp y Post Brenhinol Cyf, Grŵp y Post Brenhinol Cyf, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 4138203, swyddfa gofrestredig: 100 Victoria Embankment London EC4Y 0HQ. © Hawlfraint Grŵp y Post Brenhinol Cyf 2019.

Cadwch er gwybodaeth

Telerau ac Amodau ar gyfer Gwasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr a Gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig y Post Brenhinol

PWYSIG

Mae'r Telerau ac Amodau hyn, ynghyd â'r ffurflen gais berthnasol ar gyfer Ailgyfeirio, yn llywodraethu ein Gwasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr a'n Gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig.

Darllenwch y Telerau ac Amodau hyn yn ofalus cyn gwneud cais am unrhyw un o'r gwasnaethau Ailgyfeirio hyn. Os nad ydych yn deall unrhyw bwynt, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **03457 777 888**.

Tynnir eich sylw at gymalau 10, 11, 12 a 20 o'r Telerau ac Amodau hyn, sydd yn nodi terfynau'r gwasanaeth Ailgyfeirio, eich atebolrwydd chi a'n hatebolrwydd ni mewn cysylltiad â'n Gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr a'n Gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig ; a'r ffordd yr ydym yn defnyddio data personol a gelir yn eich cais.

Os ydych yn gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, tynnir eich sylw at gymal 4 o'r Telerau ac Amodau hyn.

Nid yw'r amserau dosbarthu wedi eu gwarantu gyda'n Gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr na'n Gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw eitemau a anfonir trwy Special Delivery y Post Brenhinol. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

1 Diffiniadau

1.1 Mae'r geiriau a ddiffinnir ar y ffurflen hon, a'r rheiny a nodir isod, yn berthnasol i'r Telerau ac Amodau hyn (telerau) oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

Mae **personau ychwanegol** yn golygu'r bobl ar wahân i'r prif ymgeisydd y mae'r prif ymgeisydd yn gwneud cais i'w post gael ei ailgyfeirio;

Mae **cytundeb** yn golygu cytundeb ar delerau'r ffurflen a'r telerau hyn;

Mae **cais** yn golygu'r cais a wnaed am wasanaeth Ailgyfeirio;

Mae **ffurflen** yn golygu'r ffurflen berthnasol ar gyfer gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, naill ai ar bapur neu ar gael ar-lein;

Mae **cyfeiriad newydd** yn golygu'r cyfeiriad y dylid ailgyfeirio'r post iddo, fel y nodir yn y cais;

Mae'r **hen gyfeiriad** yn golygu'r cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig y dylid ailgyfeirio post oddi yno, fel y nodir yn y cais;

Mae **Ailgyfeirio** yn golygu ein gwasanaeth a ddisgrifir yn y telerau hyn lle caiff post ei ailgyfeirio o un cyfeiriad i gyfeiriad arall;

Mae **Tymor Ailgyfeirio** yn golygu'r amser y gofynnir i ni ddarparu gwasanaeth Ailgyfeirio;

Mae **Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig** yn golygu Ailgyfeirio yn dilyn cais a wneir yn unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yng nghymal 4;

Mae **Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr** yn golygu Ailgyfeirio nad yw'n wasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig;

Mae **ni** ac **ein** yn golygu Grŵp y Post Brenhinol Cyfyngedig, cwmni wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cwmni: 4138203) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 100 Victoria Embankment, London EC4Y 0HQ; rhif cofrestru TAW Grŵp y Post Brenhinol yw GB243170002;

Mae **diwrnod gwaith** yn golygu unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn neu dydd Sul neu unrhyw ŵyl y banc neu wyliau cenedlaethol arall mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig; ac

Mae **chi** ac **eich** yn golygu (i) mewn perthynas ag Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddiwr, y person sydd yn llofnodi'r ffurflen bapur neu, os gwneir y cais ar-lein neu dros y ffôn, y person sydd yn gwneud y cais; a (ii) mewn perthynas ag Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, y person sy'n llofnodi'r ffurflen.

2 Ein cytundeb gyda chi

2.1 Mae ein cytundeb gyda chi yn unig ac mae'n rhaid i chi:

2.1.1 gydymffurfio â phob un o'r darpariaethau yn y cytundeb;

2.1.2 cydweithredu â ni ym mhob mater yn

ymwneud â'r gwasanaeth Ailgyfeirio y byddwn yn ei ddarparu ar eich cyfer chi; a

2.1.3 rhoi i ni, cyn gynted â phosibl, unrhyw wybodaeth ychwanegol a diweddar y gallwn, yn rhesymol, fod ei hangen.

2.2 Os ydych yn gwneud cais i ailgyfeirio post unrhyw berson ar wahân i chi eich hun, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych ganiatâd y person arall i wneud hynny neu fod gennych awdurdod i wneud cais i gael eu post wedi ei ailgyfeirio (yn cynnwys os yw'r person arall o dan 16 oed ac mai chi yw'r gwarcheidwad). Trwy wneud cais rydych yn cadarnhau bod gennych y caniatâd hwn gan bob person arall yr ydych yn gwneud cais i ailgyfeirio eu post neu fod gennych awdurdod i wneud cais i ailgyfeirio eu post, a'ch bod chi a lle y bo'n briodol, y personau yr ydych yn ailgyfeirio post ar eu cyfer, yn deall sut y gallwn ddefnyddio eich data chi a nhw fel y disgrifir yng nghymal 20.

2.3 Daw pob cytundeb i rym o'r adeg y byddwn yn derbyn y cais perthnasol ac wedi derbyn taliad ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio. Byddwn yn derbyn y cais pan fyddwn yn anfon llythyr cadarnhau.

2.4 Daw pob cytundeb i ben ar y dyddiad pan fydd y gwasanaeth Ailgyfeirio perthnasol yn dod i ben, fel y nodir yn y cais am y gwasanaeth Ailgyfeirio hwnnw, neu pan fyddwn yn eich hysbysu bod y gwasanaeth Ailgyfeirio wedi cael ei ganslo neu wedi cael ei derfynu gennym ni yn unol â chymal 15.

3 Y cais

3.1 Ni fyddwn yn sefydlu gwasanaeth Ailgyfeirio oni bai ein bod yn fodlon ynghylch eich hunaniaeth a'ch awdurdod i wneud cais. Mae rhestr o'r eitemau y byddwn yn eu derbyn fel tystiolaeth o hyn wedi eu rhestru ar y ffurflen gais ac yn **www.royalmail. com/redirection**. Oni nodir fel arall, mae'n rhaid rhoi tystiolaeth o hunaniaeth ar eich cyfer chi ac unrhyw berson arall a nodir ar y cais sydd â chyfenw gwahanol i'ch un chi.

3.2 Gallwch ond wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio (neu ymestyn gwasanaeth Ailgyfeirio) os ydych yn 18 oed neu'n hŷn. Mae'n rhaid eich bod chi (ac unrhyw un arall a nodir ar y cais sydd â chyfenw gwahanol i'ch un chi) wedi preswylio yn yr hen gyfeiriad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad eich cais. Mae gwneud cais twyllodrus am wasanaeth Ailgyfeirio heb awdurdod cywir yn drosedd a allai arwain at erlyniad.

Gallwn wrthod cais os oes gennym reswm dros wneud hynny. Mae'r rhesymau dros wrthod cais yn cynnwys:

3.3.1 methu darparu'r dogfennau sy'n ofynnol gennym ni i ddilysu eich hunaniaeth a'ch cyfeiriad, neu hunaniaeth neu gyfeiriad unrhyw berson perthnasol arall;

3.3.2 mae gennym reswm i gredu nad yw'r dogfennau yr ydych wedi eu rhoi i ni yn ddilys;

3.3.3 rydym yn credu nad ydych chi neu unrhyw berson perthnasol arall yn preswylio yn yr hen gyfeiriad

3.3.4 mae gennym amheuaeth nad yw unrhyw berson perthnasol arall wedi rhoi eu caniatâd i'r gwasanaeth Ailgyfeirio neu nad oes gennych yr awdurdod i wneud y cais ar eu rhan; neu

3.3.5 byddai'n anymarferol gweithredu'r gwasanaeth Ailgyfeirio.

3.4 Os byddwn yn dewis peidio derbyn cais, neu os nad ydym yn gallu gweithredu'r gwasanaeth Ailgyfeirio, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig ac yn ad-dalu unrhyw daliadau yr ydym wedi eu derbyn.

3.5 Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os yw unrhyw wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni yn eich cais yn newid.

3.6 Os ydym wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i'ch cais, hyd yn oed os yw hynny ar ôl i ni dderbyn eich cais, mae dyletswydd arnom i ymchwilio i'r mater er mwyn diogelu'r rheiny a enwir ynddo a phreswylwyr y cyfeiriad sydd wedi ei effeithio. Tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal, gall post yr ydych wedi gwneud cais i'w ailgyfeirio gael ei gadw am hyd at 10 diwrnod gwaith nes bod yr ymchwiliadau wedi eu cwblhau. Gallwn ofyn i chi ddarparu dogfennau gwreiddiol er mwyn profi eich bod chi, neu bobl eraill y mae'r post yr ydych wedi gwneud cais i'w ailgfeirio, yn byw yn yr hen gyfeiriad. Os na allwch wneud hyn, gallwn ganslo, neu wrthod dechrau, eich gwasanaeth Ailgyfeirio.

3.7 Os oes unrhyw wrthwynebiad yn ymwneud ag anghydfod ynghylch pwy sydd â hawl i wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, byddwn yn cadw post o'r adeg y byddwn yn derbyn gwrthwynebiad am hyd at 10 diwrnod gwaith i alluogi'r partïon yn yr anghydfod i ddatrys y mater a chael gorchymyn Llys sydd yn cadarnhau'r person sydd â hawl i wneud y cais. Os na ellir cael datrysiad yn y 10 diwrnod gwaith, gallwn ganslo, neu wrthod dechrau'r gwasanaeth Ailgyfeirio, neu ddileu'r bobl berthnasol oddi arno, ac os felly bydd y post yn cael ei ddosbarthu yn unol â'r cyfeiriad arno.

3.8 Os byddwn yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â chamddefnyddio'r gwasanaeth Ailgyfeirio, neu weithgaredd twyllodrus, gan yr heddlu neu gyrff swyddogol eraill, gallwn ganslo, neu wrthod dechrau'r gwasanaeth Ailgyfeirio.

3.9 Nid oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio os ydym o'r farn nad yw'n ddiogel neu'n rhesymol i chi ddisgwyl i ni wneud hynny.

4 Ceisiadau mewn amgylchiadau arbennig

4.1 Byddwn ond yn derbyn cais yn ymwneud â phost wedi ei gyfeirio at berson ymadawedig os yw'r cais ar gyfer Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig ac wedi ei wneud gan (yn nhrefn blaenoriaeth:

4.1.1 y person sydd â'r Grant Profiant yn ymwneud â'r person ymadawedig;

4.1.2 y person sydd â'r Llythyrau Gweinyddu yn ymwneud â'r person ymadawedig;

4.1.3 sgutor a enwir yn ewyllys y person ymadawedig; neu

4.1.4 deiliad copi ardystiedig o dystysgrif geni y person ymadawedig.

4.2 Os yw person (y rhoddwr) wedi rhoi Atwrneiaeth i berson arall (y twrnai), byddwn ond yn derbyn cais yn ymwneud â phost y rhoddwr gan y rhoddwr ei hun, neu'r twrnai, a bydd ein cytundeb gyda'r person sy'n llofnodi'r ffurflen. os yw'r cais gan y twrnai, mae'n rhaid iddi fod ar gyfer Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig..

4.3 Mae'n rhaid gwneud ceisiadauar gyfer Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig gan ddefnyddio ein ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig ynghyd â'r dystiolaeth hunaniaeth ganlynol:

4.3.1 ar gyfer y person y bydd eu post yn cael i ailgyfeirio, naill ai:

(a) yn achos person ymadawedig, y dystysgrif wreiddiol neu gopi swyddfa o'u marwolaeth; neu

(b) yn achos rhoddwr Atwrneiaeth, ac os yw'r cais yn cael ei wneud gan eu twrnai, copi ardystiedig o'r Atwrneiaeth honno.

4.3.2 i chi (os ydych yn gwneud cais i ailgyfeirio post person arall), y dystiolaeth a restrir ar y ffurflen.

4.4 Mae'n bosibl cynnwys pobl eraill ar y cais ar gyfer Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, cyhyd â bod:

4.4.1 eu hen gyfeiriad a'r cyfeiriad newydd yr un peth ag un y person y mae eu manylion wedi ei nodi yn adran 2 o'r ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig; ac

4.4.2 rydym yn cael yr un dystiolaeth hunaniaeth ar gyfer y bobl hynny ag y byddem petaent wedi gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr. Ar gyfer bob un o'r personau eraill hynny sydd wedi eu nodi yn adran 2 o'r ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, bydd angen talu ffi ychwanegol.

4.5 Gallwn dderbyn cais yn ymwneud â phost wedi ei gyfeirio at berson sydd yn fethdalwr a wnaed gan yr Ymddiriedolwr penodedig mewn Methdaliad a/neu y Derbynnydd Swyddogol cyhyd â'n bod yn cael cadarnhad o'r penodiad ac unrhyw wybodaeth ategol y byddwn yn gofyn amdani.

4.6 Byddwn yn sefydlu ac yn darparu gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig os yw gorchymyn Llys yn ei wneud yn ofynnol i ni wneud hynny.

4.7 Gallwn sefydlu a darparu gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig mewn sefyllfaoedd cyfyngedig eraill (e.e. pan fydd rhywun wedi cael dirprwyaeth). Ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 03457 777 888 i ganfod mwy.

5 Taliad

5.1 Rydych yn cytuno i dalu ein taliadau presennol ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio ac unrhyw estyniad iddo. Mae'r taliadau presennol ar gael yn **www.royalmail. com/redirection** neu ar gais gan ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid. Lle y bo'n berthnasol mae'r taliadau'n cynnwys TAW.

5.2 Fel rhan o'n mesurau diogelwch, pan fyddwch yn talu am y gwasanaeth Ailgyfeirio dros y ffon, mae'n rhaid i'r Cerdyn Credyd neu Ddebyd a ddefnyddir fod wedi ei gofrestru yn yr hen gyfeiriad, neu i berson neu gyfeiriad arall yn unol a'n cais. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw estyniad i'r tymor Ailgyfeirio. Os byddwch yn talu am wasanaeth Ailgyfeirio newydd ar-lein, gall y cerdyn Credyd neu Ddebyd fod wedi ei gofrestru yn yr hen gyfeiriad neu'r cyfeiriad newydd. Gwneir unrhyw ad-daliad i'r cerdyn Credyd neu Ddebyd a

ddefnyddiwyd i wneud taliad.

6 Ceisiadau ar-lein

6.1 Mae'r ffurflen ar-lein ar gael i'w llenwi yn: **www.royalmail.com** (y Wefan). Gweithredir y Wefan gennym ni.

6.2 Mae'r camau y mae angen i chi eu cymryd i gyflwyno cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar gael yn **www.royalmail.com/redirection**

6.3 Ar ol i chi gyflwyno'r ffurflen ar-lein, byddwch yn derbyn e-bost gennym yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

6.4 Byddwn hefyd yn cadarnhau ein cydnabyddiaeth o'r ffurflen ar-lein trwy anfon hysbysiad cadarnhau atoch yn unol a chymal 6.1.

6.5 Ni fyddwn yn ffeilio copi o'r cytundeb rhyngom ni.

7 Cadarnhau'r gwasanaeth Ailgyfeirio

7.1 Wrth dderbyn cais, byddwn yn anfon llythyr i'r hen gyfeiriad, wedi ei gyfeirio atoch chi, yn cydnabod ein bod wedi derbyn y cais (hysbysiad cadarnhau). Os byddwch yn gwneud cais ar-lein byddwch yn cael ebost yn cadarnhau.

7.2 Os ydych chi (neu unrhyw berson perthnasol) eisoes wedi symud o'r hen gyfeiriad neu os nad ydych yno bellach, neu os ydych wedi gwneud cais i wasananeth Ailgyfeirio ddod i rym o fewn 5 diwrnod gwaith o ddyddiad y cais, byddwn yn anfon yr hysbysiad cadarnhau atoch i'r cyfeiriad newydd.

7.3 Fel mesur diogelwch, byddwn hefyd yn anfon llythyr i'r hen gyfeiriad i hysbysu'r "Meddiannydd" ynghylch y gwasanaeth Ailgyfeirio.

8 Hyd y tymor Ailgyfeirio

8.1 Yn amodol ar yr hawliau i ganslo a dod a'r gwasanaeth Ailgyfeirio i ben yng nghymalau 13 a 15, bydd y gwasanaeth Ailgyfeirio yn dechrau ar y diweddara o'r canlynol:

8.1.1 5 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddwn yn derbyn y cais (oni bai ein bod yn cytuno fel arall); a

8.1.2 y dyddiad a nodwyd yn y cais.

8.2 Byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar ddiwedd y tymor a nodwyd yn yr hysbysiad cadarnhau ac yna'n dosbarthu'r holl bost yn unol â'r cyfeiriad.

8.3 Uchafswm y tymor Ailgyfeirio yw pedair blynedd, yn cynnwys unrhyw estyniadau. Caiff hyn ei leihau i 6 mis ar gyfer gwasanaeth Ailgyfeirio o Flwch SP.

9 Estyniadau i'r tymor Ailgyfeirio

9.1 Os bydd angen i'r gwasanaeth Ailgyfeirio gael ei ddarparu am fwy na'r cyfnod a nodwyd ar y cais, dylech wneud cais i'w ymestyn ar-lein (yn **www.royalmail.com/renewal**), drwy'r post neu dros y ffon (trwy ffonio ein Tim Gwasanaethau Cwsmeriaid). Mae'n rhaid i ni dderbyn eich cais i ymestyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn diwedd y tymor Ailgyfeirio presennol er mwyn sicrhau gwasanaeth di-dor. Ni ellir adnewyddu yn Swyddfa'r Post®. Gellir ymestyn gwasanaethau Ailgyfeirio hyd at yr uchafswm o bedair blynedd.

9.2 Ni allwch ymestyn gwasanaeth Ailgyfeirio mwy na 6 mis ar ol iddo ddod i ben. Bydd angen i chi lenwi cais newydd os bydd hyn yn digwydd.

9.3 Codir tal am ymestyn hyd y gwasanaeth Ailgyfeirio. Mae'r taliadau yn amrywio. Mae'r prisiau cyfredol ar gael gan ein tim Gwasanaeth Cwsmeriaid, canghennau Swyddfa'r Post® ac yn yn **www.royalmail.com/redirection** Byddwn yn cadarnhau'r pris pan fyddwch yn gwneud cais i ymestyn.

10 Cyfyngiadau ar y gwasanaeth Ailgyfeirio ac amserau dosbarthu

10.1 Nid yw'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar gael o dan yr amgylchiadau canlynol:

10.1.1 os yw'r hen gyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

10.1.2 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad Swyddfa'r Post Lluoedd Prydain® (ond gallwch wneud cais os yw'r cyfeiriad newydd yn gyfeiriad Swyddfa'r Post Lluoedd Prydain®).

10.1.3 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad amlddeiliadaeth nad yw wedi ei raddio ar wahan at ddibenion y dreth gyngor ac os nad oes ganddo fan dosbarthu unigryw (yn cynnwys tai preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, cartrefi nyrsio, meysydd carafanau, ysbytai, blychau post a gwestai).

10.1.4 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad Post Restante, neu os yw'r cyfeiriad newydd (i) yn gyfeiriad Post Restante y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu (ii) yn swyddfa ddosbarthu y Post Brenhinol neu yn Swyddfa'r Post®.

10.1.5 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad busnes.

10.2 Dim ond o un hen gyfeiriad i un cyfeiriad newydd y gellir darparu gwasanaethau Ailgyfeirio.

10.3 Rydych yn derbyn y gall y gwasanaeth Ailgyfeirio effeithio ar amserau dosbarthu. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddosbarthu post wedi ei ailgyfeirio yn unol a'n graddfeydd amser arferol ond ni warentir hyn a gall fod oedi. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw oedi rhesymol wrth ailddosbarthu post wedi ei ailgyfeirio.

10.4 Nid yw dyddiadau dosbarthu wedi eu gwarantu, fel y rheiny a geir yn unol a gwasanaeth Special Delivery y Post Brenhinol, yn berthnasol i bost wedi ei ailgyfeirio. Bydd eitemau Special Delivery a Signed For y Post Brenhinol angen llofnod wrth ddosbarthu o hyd.

10.5 Gellir ond ailgyfeirio post wedi ei gyfeirio at fwy nag un person (er enghraifft, post wedi ei gyfeirio at Mr a Mrs Smith) os oes gwasanaeth Ailgyfeirio wedi ei sefydlu ar gyfer y ddau enw ac yn ailgyfeirio i'r un cyfeiriad newydd. Os nad oes gwasanaeth Ailgyfeirio o'r fath, byddwn yn dosbarthu post wedi ei gyfeirio at fwy nag un person yn unol a'r cyfeiriad.

10.6 Ni allwn ailgyfeirio eitemau Special Delivery, Parseli, Tracked neu Signed For y Post Brenhinol i gyfeiriadua y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

10.7 Ni fyddwn yn ailgyfeirio:

10.7.1 eitemau sy'n cael eu cludo gyda'n gwasanaeth Tracked High Volume sydd wedi eu nodi yn Nwyddau wedi eu Cyfyngu. Ni allwn ailgyfeirio y tu allan i'r Deyrnas Unedig unrhyw eitem dros 25mm mewn trwch, neu 100g mewn pwysau, sy'n ymddangos ei fod yn cynnwys nwyddau. Gellir ailgyfeirio eitemau islaw'r trwch a'r pwysau hyn, ac eitemau sydd yn amlwg ond yn cynnwys papur wedi ei argraffu, dramor. Mae'r cyfyngiadau hyn yn bodoli oherwydd:

(a) mae angen datganiad tollau CN22 neu CN23, y mae'n rhaid iddynt gael eu llenwi a'u llofnodi gan yr anfonwr (nid ni) ar adeg eu postio;

(b) mae gan bob gwlad, yn yr UE neu y tu allan i'r UE, restrau penodol o waharddiadau a chyfyngiadau yn nodi'r hyn y gellir ac na ellir eu hanfon i'r gwledydd hynny, felly ni allwn Ailgyfeirio eitemau dramor os nad ydym yn gwybod beth yw eu cynnwys; ac

(c) Mae cyfyngiadau rhyngwladol ar faint eitemau yn wahanol i'r rheiny a ganiateir yn ein gwasanaethau domestig ni.

10.8 Bydd unrhyw eitemau a anfonir i'r hen gyfeiriad gan ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a nodir yng nghymal 10.6 neu 10.7 tra bod gwasanaeth Ailgyfeirio wedi cael ei sefydlu yn cael eu dychwelyd at yr anfonwr (os yw cyfeiriad yr anfonwr yn bresennol). Os ydych chi (neu unrhyw berson perthnasol) yn disgwyl i eitemau gael eu hanfon i'r hen gyfeiriad gan ddefnyddio un o'r gwasanaethau hyn dylech chi (neu nhw) ddweud wrth yr anfonwr i ddefnyddio'r cyfeiriad newydd, ac rydych yn cytuno i roi gwybod hyn i'r personau eraill.

10.9 Byddwn ond yn ailgyfeirio eitemau a anfonir gan ddefnyddio ein gwasanaethau post ni (heb gynnwys Parcelforce Worldwide at y dibenion hyn).

10.10 Mae cyfreithiau sy'n ein hatal ni rhag ailgyfeirio rhai eitemau. Mae cyfreithiau hefyd sydd yn gofyn i ni ddychwelyd rhai eitemau at yr anfonwr a gall fod angen i ni hysbysu'r awdurdodau am hyn (er enghraifft, post gan adrannau'r llywodraeth yn ymwneud a budddaliadau). Hyd yn oed os ydym yn derbyn cais, ni fydd unrhyw eitemau o'r fath yn cael eu hailgyfeirio i'r cyfeiriad newydd.

10.11 Ni allwn ailgyfeirio eitemau wedi eu nodi yn Nwyddau Tracked a Ganiateir.

11 Ein hatebolrwydd ni

11.1 Byddwn ond yn darparu gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer defnydd domestig a phreifat. Rydych yn cytuno peidio (a sicrhau nad yw'r personau perthnasol yn) defnyddio'r gwasanaeth Ailgyfeirio at unrhyw ddiben masnachol neu fusnes, ac ni fyddwn yn gyfrifol am:

11.1.1 unrhyw golli elw, colli busnes, amharu ar fusnes neu golli cyfle busnes; neu

11.1.2 unrhyw golled neu niwed arall, ym mhob achos, sydd yn digwydd yn sgil unrhyw ddefnydd o'r gwasanaeth Ailgyfeirio at ddibenion masnachol neu fusnes.

11.2 Os nad ydym yn darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio fel sy'n ofynnol gan y cytundeb hwn oherwydd ein hesgeulustod, ni yn torri'r cytundeb hwn neu am unrhyw reswm arall yr ydym yn gyfrifol amdano yn ôl y gyfraith (fel ein dyletswydd i ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio gyda gofal a sgil rhesymol) byddwn yn ad-dali'r taliadau yr ydych wedi eu talu am y gwasanaeth Ailgyfeirio ar sail dyddiol pro rata ar gyfer bob diwrnod gwaith pan na wnaethom ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio

fel sy'n ofynnol yn ôl y cytundeb hwn, a dyna fydd ein hunig atebolrwydd i chi (yn amodol ar gymalau 11.4 a 11.5).

11.3 Yn amodol ar gymal 11.4, ac 11.5 ni fydd y cyfanswm y byddwn yn atebol i'w dalu yn unol â chymal 11.2 , neu fel arall yn unol neu mewn cysylltiad â'n cytundeb, yn mynd y tu hwnt i'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio.

11.4 Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ein hatebolrwydd na ellir yn ôl y gyfraith gael ei eithrio neu ei gyfyngu, fel atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod nac unrhyw atebolrwydd am dwyll neu gamgynrychiolaeth dwyllodrus.

11.5 Nid oes unrhyw beth yn y cytundeb hwn yn effeithio ar eich hawliau statudol neu hawliau eraill yn unol â chynllun neu gontract ar gyfer cyflenwi eitem bost. Mae cludo parsel, llythyr neu unrhyw eitem arall yn unol â'n gwasanaethau post, sydd yn destun gwasanaeth Ailgyfeirio, wedi ei lywodraethu naill ai gan gynllun a wnaed yn unol â Deddf Swyddfa'r Post 1969, Deddf Gwasanaethau Post 2000 neu gontract gyda ni, a iawndal am golled neu niwed i eitem o'r fath, neu os byddwn yn dosbarthu eitem yn hwyr, yn cael ei ddarparu gan y cynllun neu'r contract ac nid gan y cytundeb hwn. Gallwch ganfod mwy am y cynlluniau hyn yn **www.royalmail.com/termsandconditions** Mae cyngor am eich hawliau cyfreithiol ar gael gan eich Swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol neu swyddfa Safonau Masnachu.

12 Eich atebolrwydd chi

12.1 Mae'n rhaid i chi dalu i ni ein costau rhesymol a gronnwyd o ganlyniad i amddiffyn unrhyw weithredu gennym ni neu ar ein rhan gan unrhyw berson (neu ystâd unrhyw berson ymadawedig), lle nad oedd gennych awdurdod i wneud cais ar ran neu yn ymwneud â'r person. Bydd costau o'r fath yn cynnwys ein costau cyfreithiol rhesymol a gronnwyd yn amddiffyn unrhyw weithredu, trafod unrhyw setliad ac yn talu i mewn unrhyw swm a ddyfarnwyd gan Lys o ganlyniad i weithredu gan berson o'r fath neu y cytunwyd yn rhesymol mewn setliad gyda person o'r fath.

13 Canslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio

13.1 Gallwch ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar unrhyw adeg cyn i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddechrau a byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio. Mae'r hawl hwn i ganslo yn ychwanegol i, ac nid yw'n effeithio ar, eich hawliau statudol.

13.2 Mae gennych hefyd hawl statudol i ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio o fewn 14 diwrnod calendr yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i ni anfon llythyr cadarnhad (y "Cyfnod Canslo").

13.3 I ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio mae'n rhaid i chi:

13.3.1 anfon eich cais yn ysgrifenedig at: Cancel my Redirection, Royal Mail Redirection Centre, Trent House, Media Way, STOKE-ON-TRENT, ST1 5ST. Darperir Ffurflen Ganslo yn Atodiad 1;

13.3.2 ffoniwch ni ar 03457 777888; neu

13.3.3 os gwnaethoch gais ar-lein, ewch i **www.royalmail.com/contactus** a llenwch y ffurflen briodol ar y we.

At ddibenion diogelwch, mae'n rhaid i'ch cais i ganslo fod o'r un cyfrif ebost a'r un a ddefnyddiwyd i wneud y cais ac mae'n rhaid i chi roi eich enw llawn, eich dyddiad geni, a'r hen gyfeiriad a'r cyfeiriad newydd fel y maent ar y cais , ac mae'n rhaid i'r cais i ganslo gael ei lofnodi gan yr un llofnod a roddwyd yn eich cais. Noder y gallai gymryd hyd at 5 diwrnod gwaith o dderbyn eich cais i ganslo i'r gwasanaeth Ailgyfeirio i ddod i ben.

13.4 Os byddwch yn anfon eich cais i ganslo:

13.4.1 o fewn y Cyfnod Canslo ac nad yw'r gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio yn llawn;

13.4.2 yn y Cyfnod Canslo ac, ar eich cais chi, mae'r gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio llai £10 i dalu am ein costau sefydlu a chyflenwi'r gwasanaeth; neu

13.4.3 ar ôl y Cyfnod Canslo ac, ar eich cais chi, mae'r gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, ni fyddwn yn rhoi ad-daliad.

13.4.4 Ar ôl y Cyfnod Canslo os nad yw'r gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio yn llawn.

13.5 Byddwn yn rhoi ad-daliadau o fewn 14 diwrnod yn dilyn derbyn eich cais i ganslo.

14 Atal Gwasanaeth Ailgyfeirio Dros Dro

14.1 Gallwn gytuno i atal y gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro, cyhyd â'ch bod chi yn rhoi 5 diwrnod gwaith o rybudd i ni a chyhyd â bod y gwasanaeth Ailgyfeirio ddim yn mynd i ddechrau yn y cyfnod hwnnw o 5 diwrnod gwaith. Os byddwn yn cytuno i atal y gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro, ni fydd y tymor Ailgyfeirio yn dechrau tan bum diwrnod gwaith ar ôl i chi ddweud wrthym yn ysgrifenedig i'w ddechrau.

14.2 Byddwn ond yn atal gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro am hyd at 6 mis o'r dyddiad yr oedd y gwasanaeth Ailgyfeirio i fod dechrau. Os ar ddiwedd y cyfnod hwn mae'r prif ymgeisydd heb ein hysbysu ei fod ef neu hi yn dymuno i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddechrau yn y cyfnod hwn, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd i ni ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio. Os wedi hynny y byddwch yn dymuno cael gwasanaeth Ailgyfeirio, bydd angen i chi lenwi cais newydd.

15 Dod â'r cytundeb hwn i ben

15.1 Gallwn ddod â'r cytundeb hwn i ben, neu roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio, trwy roi o leiaf 30 o ddiwrnodau o rybudd i'r prif ymgeisydd trwy ysgrifennu i'r cyfeiriad newydd. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi ad-daliad pro rata o'r taliadau yr ydym wedi eu derbyn yn ymwneud â'r yfnod sydd heb ddod i ben o'r cyfnod Ailgyfeirio.

15.2 Byddwn yn dod â'r cytundeb hwn i ben, ac yn terfynu y gwasanaeth Ailgyfeirio ar unwaith os:

15.2.1 rydym yn credu nad oes gennych hawl i'r gwasanaeth Ailgyfeirio neu awdurdod i wneud cais amdano;

15.2.2 mae'r taliadau heb eu hanrhydeddu neu wedi eu gwrthod gan fanc y talwr; neu

15.2.3 mae'n ofynnol arnom ni i wneud hynny o ganlyniad i orchymyn Llys neu unrhyw benderfyniad neu ofyniad cyfreithiol neu reoliadol arall.

15.3 Gallwch chi neu ni ddod â'r cytundeb hwn i ben ar unwaith gan roi rhybudd i'r llall os nad yw'r llall yn cydymffurfio ag unrhyw un o'i gyfrifoldebau yn unol â'r cytundeb hwn ac:

15.3.1 ni allan wneud urhyw beth i unioni'r mater; neu

15.3.2 gallant unioni'r mater, ond maent yn methu gwneud hynny o fewn 14 diwrnod o'r cais.

15.4 Os byddwch chi neu ni yn dod â'r cytundeb hwn i ben, byddwn ein dau yn cadw'r hawliau sydd gennym yn erbyn ein gilydd ac sydd eisoes wedi codi er gwaetha'r ffaith bod y cytundeb wedi dod i ben.

15.5 Bydd unrhyw gymalau gyda'r bwriad penodol neu honiadol o barhau mewn grym ar ôl dod â'r cytundeb hwn i ben yn gwneud hynny. Heb gyfyngu ar y frawddeg flaenorol, bydd cymalau 1, 11, 12, 15.5, 19, 20 a 22 yn goroesi ac yn parhau i fod yn berthnasol er gwaetha'r ffaith fod y cytundeb hwn wedi dod i ben.

16 Diwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio

16.1 Dim ond chi all ddiwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio cyhyd â'n bod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r diwygiad dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio. Nid oes unrhyw ddiwygiad i'r hen gyfeiriad yn bosibl. Bydd angen gwasanaeth Ailgyfeirio arall ar hen gyfeiriad gwahanol.

16.2 Oherwydd y cyfnod o amser sydd ei angen arnom i sefydlu'r gwasanaeth Ailgyfeirio, rydych yn cytuno bod gwneud cais am unrhyw ddiwygiad i'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn ystod y 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio, neu unrhyw bryd wedi hynny, yn ei wneud yn ofynnol i ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio fydd yn cael ei brosesu yn unol â chymal 13. Yn yr amgylchiadau hyn bydd angen i chi wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio newydd a bydd yn ofynnol i chi dalu am y gwasanaeth Ailgyfeirio newydd.

17 Newidiadau i'r cytundeb hwn

17.1 Gallwn ddiwygio'r telerau hyn (yn cynnwys newidiadau i daliadau perthnasol) trwy roi o leiaf 30 o ddiwrnodau o rybudd i chi trwy gyhoeddi newidiadau o'r fath ar ein gwefan. (ac eithrio fel yr esbonnir yng nghymal 17.3). Byddwn ond yn gwneud newidiadau am y rhesymau isod:

17.1.1 gwneud y telerau hyn yn gliriach ac yn fwy ffafriol i chi;

17.1.2 adlewyrchu cynnydd neu ostyngiadau dilys yng nghost darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio (ni fydd unrhyw gynnydd o'r fath yn cael ei weithredu'n adolygol);

17.1.3 darparu ar gyfer cyflwyno systemau a gwasanaethau newydd a newidiadau mewn technoleg a chynnyrch;

17.1.4 unioni unrhyw gamgymeriadau fydd yn cael eu canfod maes o law; neu

17.1.5 adlewyrchu newid i gyfraith neu reoliad perthnasol.

17.2 Os byddwn yn diwygio'r cytundeb hwn ac os nad ydych yn hapus gyda'r newidiadau hynny,

gallwch ddod â'r cytundeb hwn i ben trwy ysgrifennu atom ni a byddwn yn rhoi ad-daliad pro ata i chi o'r taliadau yr ydym wedi eu derbyn yn ymwneud â'r cyfnod sydd heb ddod i ben o'r tymor Ailgyfeirio.

17.3 Gall unrhyw ddiwygiad sy'n cael ei wneud i adlewyrchu newid i gyfraith neu reoliad perthnasol ddod i rym ar unwaith neu fel arall fel y byddwn yn nodi.

18 Cwynion

18.1 Os byddwch yn anfodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir gennym ni mae gennym broses gwyno fewnol. Mae manylion ein gweithdrefn gwyno ar gael yn **www.royalmail.com**

18.2 Os nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb terfynol i'ch cwyn, bydd eich achos yn cael ei ystyried yn un diddadrys. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y byddwch yn gallu mynd â'ch cwyn i'r Gwasanaeth Iawndal Post (POSTRS). Mae hwn yn gynllun Ombwdsmon annibynnol allanol.

18.3 Rôl POSTRS yw datrys anghydfodau cwsmeriaid. Mae POSTRS yn darparu gwasanaeth am ddim ac rydym yn gaeth i'w canfyddiadau. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan POSTRS's website **www.cedr.com/postrs**

19 Hysbysiadau

19.1 Os yw'n ofynnol i roi hysbysiadau i ni yn ysgrifenedig, mae'n rhaid i chi eu hanfon atom drwy'r post i Royal Mail Redirection Centre, Trent House, Media Way, STOKE-ON-TRENT, ST1 5ST.

19.2 Byddwn yn gyffredinol yn cyfeirio unrhyw hysbysiadau atoch chi yn y cyfeiriad newydd, wedi eu nodi at eich sylw chi. Fodd bynnag, os oes gennym reswm i ystyried cyfeiriad neu berson arall i fod yn fwy priodol, rydym yn cadw'r hawl i anfon unrhyw hysbysiad at y person hwnnw yn lle neu yn ogystal â'r cyfeiriad newydd.

19.3 Oni nodir fel arall yn y cytundeb hwn, byddwn yn dosbarthu unrhyw hysbysiad i fod wedi cael ei roi 2 ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd ei bostio yn gywir.

20 Diogelu data a chyfrinachedd

20.1 Mae'r cymal 20 hwn yn nodi'r ffyrdd y gallwn ddefnyddio gwybodaeth a geir yn y cais, yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r personau sydd wedi eu henwi ynddo.

20.2 Am fwy o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth yn ymwneud â'r personau, ac am eich hawliau chi, gweler ein Polisi Preifatrwydd, sydd ar gael yn **www.royalmail.com** (neu, i gael copi papur, gweler y daflen sydd yn mynd gyda fersiwn papur y ffurflen hon).

Darparu ein gwasanaeth Ailgyfeirio

20.3 Byddwn yn defnyddio'r holl wybodaeth a geir yng nghais pob person y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio er mwyn sefydlu a darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio yr ydych yn gwneud cais amdano ac fel arall i gydymffurfio â'r telerau hyn. O ran gwybodaeth amdanoch chi, mae hyn yn angenrheidiol i ni gyflawni ein cytundeb; ac o ran gwybodaeth am y personau eraill yr ydych wedi gwneud cais i'w post gael ei ailgyfeirio, a chan ystyried y cadarnhad yr ydych yn ei roi i ni yn unol â chymal 2.2 o'r telerau hyn, mae o fudd dilys i ni ddefnyddio'r wybodaeth honno yn y ffyrdd a ddisgrifir i ddarparu gwasanaeth post sy'n gweithredu'n dda trwy ailgyfeirio post y personau hynny i'r cyfeiriad newydd.

Helpu i atal twyll

20.4 Gallwn hefyd ddefnyddio'r holl wybodaeth a geir yng nghais pob person y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio i drosglwyddo manylion yn ymwneud â statws y gwasanaeth Ailgyfeirio i sefydliadau eraill er mwyn helpu i atal twyll a/neu wyngalchu arian (gallai hyn gynnwys dilysu hunaniaeth at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian), y mae gennym ni, a'r sefydliadau eraill hynny, sydd â diddordeb dilys yn helpu i'w atal.

Helpu i osgoi post wedi ei gyfeirio'n anghywir

20.5 Gallwn ddefnyddio'r holl wybodaeth a ddarperir yng nghais pob person y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio [ac sydd yn 16 oed o leiaf] er mwyn hysbysu sefydliadau sydd â'u manylion cyswllt nad ydynt yn yr hen gyfeiriad bellach, ond heb ddarparu unrhyw ddarn o'r wybodaeth honno i'r sefydliadau eraill hynny. Mae o fudd dilys i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon fel hyn er mwyn darparu gwasanaeth post sy'n gweithredu'n dda trwy atal post rhag cael ei anfon i gyfeiriadau anghywir; ac mae o fudd dilys i sefydliadau eraill yr ydym yn eu hysbysu bod cyswllt iddynt wedi newid eu cyfeiriad i beidio anfon post i gyfeiriad anghywir er mwyn atal gwastraffu arian ac adnoddau.

Gwasanaeth Diweddaru Cyfeiriad

20.6 Heb unrhyw gost ychwanegol, gallwn hefyd rannu'r holl wybodaeth yr ydym wedi ei rhoi yng nghais pob person y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio [ac sydd yn 16 oed neu'n hŷn], yn cynnwys eu cyfeiriad, eu cyfeiriad ebost a'u rhif ffôn, gyda busnesau sydd â'u manylion cyswllt er mwyn iddynt ddiweddaru eu cofnodion a chadw mewn cysylltiad. Mae o fudd dilys i'r sefydliadau hynny (a dyletswydd cyfreithiol) i gynnal cywirdeb a defnyddioldeb eu rhestrau cyswllt, a all hefyd helpu i atal twyll a lleihau gwastraff.

20.7 Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon os byddwch yn nodi ar y ffurflen, neu pan fyddwch yn gwneud cais am y gwasnaeth Ailgyfeirio dros y ffôn, nad ydych chi (neu unrhyw berson arall y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio) eisiau i ni wneud hynny. Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid unrhyw bryd i ofyn i ni beidio â rhannu'r wybodaeth hon ac ar ôl hynny, ni fyddwn yn gwneud hynny.

Cynigion a gostyngiadau i symudwyr

20.8 Cyhyd â'ch bod wedi cydsynio, gallwn hefyd rannu'r wybodaeth amdanoch chi a geir yn y cais (ond nid gwybodaeth am unrhyw berson arall y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio), yn cynnwys eich cyfeiriad, cyfeiriad ebost a'ch rhif ffôn, gyda sefydliadau yn y sectorau manwerthu, ffordd o fyw, cyfleustodau, telathrebu, cyllid ac yswiriant, er mwyn iddynt allu anfon gostyngiadau, cynigion a gwybodaeth sy'n berthnasol i bobl sydd yn symud tŷ atoch chi. Gallwn gyfuno eich gwybodaeth chi gyda data arall, er enghraifft o'n Ffeil Cyfeiriad Côd Post, wrth ei rannu at y dibenion hyn.

20.9 Mae o fudd dilys i ni ddefnyddio'r wybodaeth fel hyn i greu gwasanaethau i gynorthwyo sefydliadau sydd â budd dilys yn defnyddio marchnata drwy'r post i bobl sydd yn fwy tebygol o'i gael yn dderbyniol, gan wneud y cynnyrch hyn yn fwy cost-effeithiol.

20.10 Byddwn yn sgrinio'r holl ostyngiadau, cynigion a'r wybodaeth hynny cyn iddynt gael eu hanfon, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i symudwyr tŷ, a byddwn hefyd yn cymryd camau i sicrhau mai dim ond nifer gyfyngedig o weithiau y mae unrhyw sefydliad yn cysylltu â chi.

20.11 Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon os byddwch yn nodi ar y cais, neu wrth wneud cais am y gwasanaeth Ailgyfeirio, dros y ffôn, nad ydych eisiau i ni wneud hynny. Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid unrhyw bryd i ofyn i ni beidio â rhannu'r wybodaeth hon a byddwn yn cymryd camau i ddileu eich manylion o'r gwasanaeth hwn.

20.12 Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth amdanoch chi a geir yn y cais i hysbysu sefydliadau eraill, ar ôl i chi symud, bod gan eich cyfeiriad feddiannydd newydd, er mwyn iddynt allu anfon cynigion a gwybodaeth sy'n berthnasol i symudwyr tŷ at y meddianwyr newydd. Ni ellir eich adnabod o'r hyn y byddwn yn ei rannu gyda'r sefydliadau eraill hynny.

Hyrwyddo gwasanaethau y Post Brenhinol

20.13 Gallwn ddefnyddio'r hen gyfeiriad, y cyfeiriad newydd a'r dyddiad symud a nodwyd yn y cais:

20.13.1 cyn y dyddiad symud, er mwyn cysylltu â meddianwyr presennol y cyfeiriad newydd, i awgrymu eu bod hefyd yn gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, er mwyn iddynt barhau i dderbyn post ar ôl iddynt symud; ac

20.13.2 ar ôl y dyddiad symud, cysylltu â meddianwyr newydd yr hen gyfeiriad, heb ddefnyddio enwau, i gynnig gostyngiadau symud cartref, cynigion a gwybodaeth iddynt oddi wrthym ni.

20.14 Hoffem hefyd gadw mewn cysylltiad â chi am ein cynnyrch, gwasanaethau a chynigion a allai fod o ddiddordeb i chi, yn cynnwys ymestyn y tymor Ailgyfeirio. Trwy gyflwyno cais, rydych yn cydnabod y gallwn gysylltu â chi drwy'r post, ar ebost a thros y ffôn i wneud hyn ond os nad ydych eisiau clywed oddi wrthym ni trwy unrhyw un o'r dulliau hyn, nodwch X yn y blwch (blychau) ar y ffurflen.

20.15 Ym mhob un o'r achosion uchod, rydym yn cael budd dilys o farchnata ein gwasanaethau.

Dadansoddiadau

20.16 Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth amdanoch chi a roddwyd yn y cais i greu dadansoddiadau symud tŷ, a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau eraill. Ni fydd yn bosibl eich adnabod o'r hyn y byddwn yn ei rannu gyda'r sefydliadau eraill hynny.

Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig

20.17 Ni fydd y manylion a geir ar ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd a ddisgrifir yng nghymalau 20.6 i 20.16.

Cyfrinachedd

20.18 Nid yw'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn gyfrinachol. Gall unrhyw eitem heb ei dosbarthu gael ei dychwelyd at yr anfonwr yn cynnwys manylion y cyfeiriad newydd.

20.19 Efallai y byddwn hefyd yn cadarnhau bodolaeth gwasanaeth Ailgyfeirio unrhyw drydydd parti yr ydym yn credu bod ganddynt hawl dilys i wybodaeth o'r fath.

20.20 Mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith hysbysu rhai awdurdodau pan fydd gwasanaeth Ailgyfeirio wedi ei sefydlu, yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, adrannau eraill y Llywodraeth ac awdurdodau lleol.

20.21 Gellir defnyddio'r manylion a geir yn y cais gennym ni hefyd a'i rhannu gyda thrydydd partïon pan fyddwn yn credu bod angen cydymffurfio â'r gyfraith neu ddiogelu ein hawliau ni neu hawliau, eiddo, neu ddiogelwch person arall. Am fwy o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn defnyddio data personol, gweler ein Polisi Preifatrwydd yn **www.royalmail.com/ privacy-policy**

21 Materion y tu hwnt i'n rheolaeth resymol

21.1 Ni fyddwn yn gyfrifol i chi nac unrhyw berson ychwanegol os nad ydym yn gallu darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio oherwydd rhywbeth y tu hwnt i'n rheolaeth resymol (fel rhyfel, gweithredoedd o derfysgaeth, tywydd eithafol, daeargrynfeydd, tân, llifogydd tagfeydd traffig, methiant mecanyddol – yn cynnwys peiriannau, offer, a cherbydau unrhyw ffordd breifat neu gyhoeddus yn cael eu rhwystro, neu weithredu diwydiannol a chanlyniadau hyn os yw'n ein hatal rhag darparu ein gwasanaeth arferol). Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi yn brydlon am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.

21.2 Os nad ydym yn gallu gwneud ein dyletswyddau yn llawn am fwy na 4 wythnos yn olynol oherwydd rhywbeth y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, gallwch ddod â'r cytundeb hwn i ben trwy ddweud wrthym yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r prif ymgeisydd anfon unrhyw hysbysiad yn unol â'r cymal 21.2 hwn, p'un ai ar eu rhan nhw neu eich rhan chi. Os byddwch yn canslo yn unol â'r cymal 21.2 hwn, byddwch yn cael ad-daliad am y gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad (y byddwn yn derbyn eich hysbysiad canslo) hyd at ddiwedd y tymor Ailgyfeirio.

22 Cyffredinol

22.1 Ni fydd person nad yw'n rhan o'r cytundeb hwn yn gallu gweithredu unrhyw delerau, darpariaeth, hawl neu fudd yn unol ag ef neu mewn cysylltiad ag ef.

22.2 Mae bob un o ddarpariaethau'r cytundeb hwn yn gweithredu ar wahân. Os yw unrhyw Lys neu awdurdod cymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn annilys, yn anghyfreithlon neu na ellir eu gweithredu:

22.2.1 bydd y ddarpariaeth (neu ran o'r ddarpariaeth) honno, i'r graddau gofynnol, yn cael ei heithrio rhag ffurfio rhan o'r cytundeb hwn; a

22.2.2 bydd gweddill y darpariaethau yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

22.3 Mae pob un ohonom yn cydnabod na allwn drosglwyddo'r hawliau a'r dyletswyddau yn unol â'r cytundeb hwn heb ganiatâd y llall, ni ddylid oedi na dal unrhyw ganiatâd o'r fath yn ôl yn afresymol. Gallwch ddefnyddio person arall i wneud unrhyw ddyletswyddau cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym yn gyntaf. Byddwch chi yn atebol i ni am unrhyw weithred y mae'r person hwnnw'n ei gwneud neu'n methu ei gwneud. Gallwn ni ddefnyddio pobl eraill i gyflawni ein dyletswyddau ac ymarfer ein hawliau ond ni fydd yn gyfrifol amdanynt.

22.4 Er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd ynghylch beth i'w ddisgwyl gennym ni a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi, mae'r cytundeb hwn yn cynnwys y ffurflen yn unig a'r telerau a'r amodau hyn. Darllenwch y ffurflen a'r telerau hyn yn ofalus. Os nad ydych yn deall unrhyw bwynt, cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid am fwy o wybodaeth ar: 03457 777 888. Os ydych yn fyddar eu'n drwm eich clyw, rydym yn cynnig gwasanaeth ffôn testun 0345 600 0606. Gellir recordio, monitro a defnyddio galwadau at ddibenion hyfforddiant a chydymffurfio. Neu, ysgrifennwch at Royal Mail Redirection Centre, Trent House, Media Way, STOKE-ON-TRENT, ST1 5ST. Ni fydd unrhyw beth yn y cymal neu'r cytundeb hwn yn gweithredu i gyfyngu nac eithrio unrhyw atebolrwydd am dwyll neu gynrychiolaeth dwyllodrus.

22.5 Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu yn ôl cyfraith y rhan honno o'r Deyrnas Unedig lle lleolir yr hen gyfeiriad. Bydd unrhyw anghydfod yn ymwneud â'r gwasanaeth Ailgyfeirio sydd yn deillio o neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn neu ei ffurfio yn cael ei drin gan Lysoedd y rhan honno o'r Deyrnas Unedig lle lleolir yr hen gyfeiriad.

22.6 Mae'r cytundeb hwn (yn cynnwys y telerau hyn a'r ffurflen hon) yn Saesneg yn unig.

TORRWCH YMA

TORRWCH YMA

ATODIAD 1
FFURFLEN GANSLO

Ni ddylai busnesau ddefnyddio'r ffurflen hon.

(Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod DIM OND OS YDYCH YN DYMUNO CANSLO y cytundeb hwn).
Canslo fy ngwasanaeth Ailgyfeirio
At: Royal Mail Redirection Centre, Trent House, Media Way, STOKE-ON-TRENT, ST1 5ST.

Rwyf trwy hyn yn hysbysu fy mod yn dymuno canslo fy nghontract gyda Gwasanaeth Ailgyfeirio y Post Brenhinol.

Cyfeirnod: _____

Enw llawn y prif ymgeisydd*: _____ Dyddiad geni*: _____

Hen gyfeiriad*: _____

_____

Cyfeiriad newydd*: _____

_____

Llofnod yr ymgeisydd : _____ Dyddiad: _____

* Gwybodaeth ofynnol at ddibenion diogelwch ac mae'n rhaid iddi gyd-fynd â gwybodaeth a roddwyd ar y cais gwreiddiol.